




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Bwndeli llys – Newidiadau yn y cynlluniau talu am gymorth cyfreithiol mewn achosion cyfraith teulu

Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd: 2 Mehefin 2014





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Bwndeli Ilys – Newidiadau yn y cynlluniau talu am gymorth cyfreithiol mewn achosion cyfraith teulu

Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn www.justice.gov.uk

Cynnwys

Pennod 1: Crynodeb Gweithredol

Pennod 2: Ymateb i'r ymgynghoriad

Pennod 3: Datganiad Cydraddoldeb

Atodiad A: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Atodiad B: Cynnwys bwndel yr Eiriolwr a'r broses gwirio



Pennod 1: Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad a'r achos o blaid diwygio:

- 1.1 Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 27A (PD 27A)¹ i'w gymhwyso'n gyffredinol at y rhan fwyaf o wrandawiadau teulu ac mae'n pennu, ymysg pethau eraill, beth fydd cynnwys a fformat y bwndel llys mewn achosion teulu. Ar hyn o bryd, nid oes terfyn penodedig ar faint y bwndel llys mewn gwrandawiadau teulu. O dan y Cynllun Eiriolaeth Teulu (FAS) ar gyfer Cymorth Cyfreithiol, mae eiriolwyr yn gallu hawlio ffioedd atodol penodol mewn achosion cyfraith teulu cyhoeddus a phreifat os yw'r bwndel llys yn 351 o dudalennau neu'n fwy. Rhoddir taliadau gwahanol i eiriolwyr yn ôl a yw'r gwrandawriad yn un interim neu derfynol ac yn ôl maint y bwndel. Mae lefel y tâl i'r eiriolwr wedi'i phennu yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau) 2013 (fel y'u diwygiwyd)².
- 1.2 O 31 Gorffennaf 2014, bydd darpariaethau yn PD 27A yn dod i rym a fydd yn cyflwyno terfyn o 350 tudalen³ ar faint y bwndel llys mewn achosion teulu. Y bwriad wrth bennu'r terfyn hwn yw symleiddio gweithdrefnau a chanoli sylw'r llys ar y materion sydd i'w datrys. Fodd bynnag, fe fydd hyn hefyd yn rhwystro'r rhan fwyaf o achosion teulu rhag cyrraedd y trothwyon tâl presennol ar gyfer ffioedd atodol am fwndeli llys o dan FAS, fel na fydd eiriolwyr yn gallu hawlio'r taliadau atodol y maent yn eu cael yn awr.
- 1.3 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod na fydd cyflwyno terfyn ar faint y bwndel llys yn golygu o reidrwydd y bydd baich gwaith yr eiriolwr yn llai neu'n llai cymhleth. O ganlyniad i hyn, mae'r Llywodraeth yn credu bod angen newidiadau canlyniadol yn FAS i sicrhau bod eiriolwyr yn parhau i gael tâl priodol am eu gwaith, yn enwedig mewn achosion mwy cymhleth.
- 1.4 Ym mis Mawrth eleni, ymgynghorodd y Llywodraeth ar gynigion i newid FAS. Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw ac yn disgrifio sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu symud ymlaen.

Y broses ymgynghori a'r canlyniad

- 1.5 Ymgynghorodd y Llywodraeth ar ddau opsiwn – seilio ffi atodol y bwndel ar fwndel yr Eiriolwr neu gyflwyno ffioedd atodol newydd ar sail gwrandawiadau – gan ofyn yn benodol am farn ac awgrymiadau gan eiriolwyr neu unigolion y byddai'r gostyngiad ym maint y bwndel llys yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.
- 1.6 Trafodwyd yr opsiynau a gynigiwyd gan y Llywodraeth â'r cyrff proffesiynol sy'n cynrychioli'r proffesiwn cyfreithiol cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nod cyffredinol y Llywodraeth yw y bydd unrhyw ddiwygio, hyd y gellir:

¹ http://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_27a

² http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2013/422/pdfs/ukxi_20130422_en.pdf

³ http://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_27a

- yn niwtral o ran cost;
- yn osgoi risgiau na ellir eu rheoli i stiwardiaeth y gronfa cymorth cyfreithiol;
- yn canoli taliadau ar achosion cymhleth;
- yn ategu nodau'r diwygiadau o'r Adolygiad o Gyfiawnder Teuluol.

1.7 Cafodd y Llywodraeth 19 o ymatebion i'r ymgynghoriad, y rhan fwyaf ohonynt gan gyrff cynrychiadol y proffesiwn cyfreithiol neu ddarparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol mewn achosion teulu. Dewis clir y rhan fwyaf o ymatebwyr oedd cysylltu'r taliadau presennol am ffioedd atodol am fwndeli â bwndel yr Eiriolwr, yn hytrach na'r bwndel llys. Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi awgrymu mai hwn oedd yr ateb mwyaf niwtral o ran cost i ddarparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol mewn achosion teulu ac i'r gronfa cymorth cyfreithiol. Mae'r Llywodraeth y cytuno â'r farn hon, ar yr amod y cyflwynir rheolaethau priodol i sicrhau bod bwndel yr Eiriolwr yn cynnwys dim ond y dogfennau a gyflwynwyd sy'n berthnasol ac angenrheidiol i'r achos. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu diwygio FAS ar y sail hon. Bydd y newidiadau'n dod i rym ar 31 Gorffennaf.

Gwaith yn y dyfodol

1.8 Bydd y Llywodraeth yn ystyried pa gamau i'w cymryd mewn cysylltiad â newidiadau a all fod yn angenrheidiol yn y cynlluniau ar gyfer talu cymorth cyfreithiol mewn achosion teulu o ganlyniad i newidiadau ehangach mewn gweithdrefnau a newidiadau eraill o ran gweithredu yn y Llys Teulu newydd. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r dull newydd o dalu ffioedd atodol am fwndeli.

Effaith gyffredinol

1.9 Mae asesiad o effaith gyda'r ddogfen ymateb hon. Mae'n ymdrin â'r effaith o gysylltu taliadau am ffioedd atodol â bwndel yr Eiriolwr yn hytrach na'r bwndel llys. Wrth wneud y newidiadau sydd eu hangen yn FAS, mae'r Llywodraeth yn derbyn ei bod yn bosibl y bydd baich gweinyddol bach ar eiriolwyr wrth lunio'r rhestr dudalennau a'r esboniad ysgrifenedig a chost weinyddol fach i'r gronfa cymorth cyfreithiol o ganlyniad i newidiadau y bydd angen i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) eu gwneud mewn contractau, canllawiau a phrosesau busnes. Fodd bynnag, amcan y newidiadau hyn yw cynnal lefel a nifer presennol y taliadau am ffioedd atodol am fwndeli a'r disgwyl felly yw na fyddant yn cael dim neu nemor ddim effaith ar eiriolwyr, cleientiaid a'r gronfa cymorth cyfreithiol.

Pennod 2: Ymateb i'r ymgynghoriad

- 2.1 Mae'r Bennod hon yn egluro ymateb y Llywodraeth i'r papur ymgynghori "*Bwndeli llys – Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Eiriolaeth Teulu Cymorth Cyfreithiol*".
- 2.2 Mae crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac o ymateb y Llywodraeth i'r rhain yn **Atodiad A**.

Taliadau atodol am fwndeli – Newidiadau arfaethedig yn FAS

- 2.3 Roedd y papur ymgynghori yn disgrifio dau opsiwn posibl ar gyfer newid FAS: cadw'r fframwaith presennol ar gyfer ffioedd atodol am fwndeli ond cysylltu'r tâl â maint a chynnwys bwndel yr Eiriolwr yn hytrach na'r bwndel llys neu gyflwyno ffioedd atodol newydd ar wahân wedi'u seilio ar wrandawiadau. Roedd yn fwriad i'r ddau opsiwn fod yn niwtral o ran cost, ond derbyniwyd ei bod yn bosibl y byddai'r cynnig ynghylch ffioedd atodol newydd wedi'u seilio ar wrandawiadau yn effeithio ar lefel y tâl a gaiff eiriolwyr unigol yn ôl y cymysgedd o achosion y maent yn eu cymryd.
- 2.4 Ar ôl ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu cadw'r fframwaith presennol ar gyfer ffioedd atodol am fwndeli, ond cysylltu'r tâl â maint a chynnwys bwndel yr Eiriolwr. Bydd bwndel yr Eiriolwr yn cynnwys dim ond y dogfennau a gyflwynwyd sy'n berthnasol ac angenrheidiol i'r achos. Fel y mae ar hyn o bryd, ni ellir cynnwys nodiadau am ymweliadau cyswllt ym mwndel yr Eiriolwr at ddibenion cymorth cyfreithiol oni bai fod y barnwr neu'r person y gwrandawir yr achos o'i flaen yn rhoi caniatâd i'w cynnwys yn y bwndel llys. Wrth geisio hawlio tâl am ffi atodol am fwndel, bydd yn ofynnol i'r Eiriolwr gyflwyno, gyda Ffurflen Presenoldeb yr Eiriolwr, y rhestr dudalennau o ddogfennau y cytunwyd arni â'r partïon eraill eu bod yn berthnasol ac angenrheidiol i'r achos. Byddai disgwyl hefyd i'r eiriolwr ddarparu esboniad ysgrifenedig o'r rheswm dros ystyried bod unrhyw ddogfennau sydd ar y rhestr dudalennau o ddogfennau yn berthnasol ac angenrheidiol i'r achos. Byddai'r rhestr dudalennau y cytunwyd arni, ynghyd â'r esboniad am gynnwys dogfennau, yn cael ei chyflwyno i'r llys yn y gwrandawriad ynghyd â Ffurflen Presenoldeb yr Eiriolwr i'w hardystio gan y llys. Byddai'r llys yn seilio ei ardystiad ar y rhestr dudalennau o ddogfennau a gyflwynwyd y cytunwyd arni ond byddai hefyd yn gallu adolygu'r esboniad a roddwyd os oedd yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny.

Achosion nad ydynt o dan FAS

- 2.5 Er y bydd y darpariaethau yn PD 27A, a ddaw i rym ar 31 Gorffennaf, yn effeithio ar y Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Teulu (FGFS), mae'r Llywodraeth wedi penderfynu mai cam anghymesur fyddai diwygio'r cynllun hwn. Ar hyn o bryd, mae'r trothwyon ar gyfer talu ffioedd atodol am fwndeli llys o dan FGFS yn is o lawer na'r rheini o dan FAS a chan fod disgwyl y bydd nifer yr achosion o dan y cynllun hwn yn parhau i ostwng yn gyflym, mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn amhriodol newid cynllun a fydd yn dod i ben cyn hir.

Gweithredu

- 2.6 Y bwriad yw y bydd y diwygiadau i FAS yn cael eu gweithredu drwy is-ddeddfwriaeth ac y bydd y newidiadau mewn contractau sy'n gysylltiedig â hyn yn cael eu cyflwyno yr un pryd â gweithredu'r darpariaethau yn PD 27A ar 31 Gorffennaf 2014.

Newidiadau ehangach

- 2.7 Roedd nifer o ymatebwyr wedi awgrymu nad oedd y cynllun presennol ar gyfer ffioedd atodol am fwndeli yn darparu tâl priodol i eiriolwyr, yn enwedig mewn achosion mwy cymhleth, ac y byddai'r broblem hon yn dwysáu pe byddai'r diwygiadau i Gyfiawnder Teulu yn arwain at lai o wrandawiadau a gwrandawiadau byrrach o lawer. Er nad yw hyn yn berthnasol i'r cynigion yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad, sy'n ymwneud yn llwyr â'r newidiadau sydd eu hangen i ddelio â'r newid ym maint y bwndel llys, mae'r Llywodraeth yn bwriadu ystyried unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol yn y cynlluniau ar gyfer talu cymorth cyfreithiol mewn achosion teulu o ganlyniad i newidiadau ehangach mewn gweithdrefnau a newidiadau eraill yng ngweithrediadau'r Llys Teulu newydd pan fydd digon o ddata ar gael am unrhyw effeithiau arwyddocaol ar eiriolwyr fel y gellir modelu unrhyw newidiadau sydd eu hangen. Bydd hyn yn cynnwys asesu pa mor effeithiol yw cysylltu tâl am ffioedd atodol am fwndeli â bwndel yr Eiriolwr. Bydd yr awgrymiadau hyn yn cael eu hystyried yn ystod y broses honno.

Pennod 3: Datganiad Cydraddoldeb

- 3.1 Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o'r pwysigrwydd o ystyried yr effaith a gaiff newidiadau yn FAS ar wahanol grwpiau, yn enwedig eiriolwyr sy'n ymwneud ag achosion cyfraith teulu lle y rhoddir cymorth cyfreithiol a'u cleientiaid.
- 3.2 Yn unol â'r ddyletswydd sydd arni o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'r Llywodraeth wedi ystyried y newidiadau sydd eu hangen yn FAS a'u heffaith ar eiriolwyr a'u cleientiaid er mwyn rhoi sylw dyladwy i'r angen i ddileu ymddygiad anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da⁴.
- 3.3 Yn ein dadansoddiad cychwynnol, daethom i'r casgliad nad oeddem yn rhag-weld unrhyw effaith anffafriol neu anfantais benodol o ganlyniad i'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer newid yn y papur ymgynghori – cysylltu ffioedd â bwndel yr Eiriolwr (Opsiw 1) neu ffioedd atodol newydd wedi'u seilio ar wrandawiadau (Opsiw 2). Gofynnwyd am sylwadau am hyn gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, nid oedd ymatebwyr wedi mynegi unrhyw bryderon a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r diwygiadau arfaethedig i'r cynllun talu ffioedd atodol am fwndeli. Felly, rydym yn dal at ein casgliadau cynharach.
- 3.4 Mae'r Llywodraeth yn bwriadu symud ymlaen yn awr â newid wedi'i seilio ar fwndel yr Eiriolwr (Opsiw 1). Daethom i'r casgliad o'r blaen nad oedd yr opsiwn hwn yn debygol o greu effeithiau o ran cydraddoldeb ar gyfer eiriolwyr neu eu cleientiaid gan mai'r bwriad yw y bydd y newid arfaethedig yn effeithio i'r graddau lleiaf posibl ar ddarparwyr ac y bydd, hyd y gellir sicrhau hynny, yn niwtral o ran cost. Yr unig newid yw y bydd y tâl i eiriolwyr wedi'i seilio ar faint a chynnwys bwndel yr Eiriolwr yn hytrach na'r bwndel llys. Ni fydd newid yn lefelau penodol y tâl y gall eiriolwyr ei hawlio ar hyn o bryd er ei bod yn bosibl y bydd eiriolwyr yn ysgwyddo ychydig o waith gweinyddol i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i ategu eu hawliad.
- 3.5 Bydd y newidiadau arfaethedig yn FAS yn gymwys i bob person, pa un a oes ganddo nodweddion gwarchoddedig neu beidio. Felly nid ydym yn creu eu bod yn achosi gwahaniaethu uniongyrchol na gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd. Mae'r newid yn FAS yn angenrheidiol oherwydd y newidiadau yn PD 27A a fydd yn gosod terfyn ar faint y bwndel llys. Rydym y credu felly, pe byddai unrhyw effaith anghyfartal yn codi o ganlyniad i gyflwyno'r cysylltiad â bwndel yr Eiriolwr, y byddai'n gymesur â'r nod dilys o geisio sicrhau bod eiriolwyr yn parhau i gael tâl priodol am waith sy'n angenrheidiol, yn enwedig o gydnabod maint a chymhlethdod y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig ag achos cyfraith teulu.⁵

⁴ Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion a'r Adran i roi sylw dyladwy wrth arfer eu swyddogaethau i'r anghenion canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon a mathau eraill o ymddygiad sydd wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (y rheini sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt);
- Meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau (y rheini sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt).

⁵ Gyda golwg ar yr angen i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da, rydym yn credu bod y cynnig yn annhebygol o danseilio'r gallu i gyflawni'r amcanion hynny. Ar y cyfan, credwn nad yw newidiadau mewn taliadau cymorth cyfreithiol yn berthnasol i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal neu feithrin cysylltiadau da ymysg y proffesiynau. Mae lefelau penodol y gynrychiolaeth o fewn meysydd ymarfer penodol ym mhroffesiynau'r Bargyfreithwyr a Chyfreithwyr yn gyfrifoldeb i gyfrif rheoleiddio'r proffesiynau yn bennaf.

3.6 Mae'r Llywodraeth yn nodi bod rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, yn enwedig yng nghyswllt y bwriad i leihau'r bwndel llys mewn achosion teulu a gostwng y ffioedd a delir i arbenigwyr. Fodd bynnag, nid yw'r pryderon hyn yn codi o'r diwygiadau sydd wedi'u cynnig yn nogfen ymgynghori'r Llywodraeth sydd â'r unig amcan o sicrhau bod eiriolwyr yn parhau i gael eu talu'n briodol mewn achosion teulu ar ôl cyflwyno terfyn uchaf ar faint y bwndel llys yn PD 27A.

Atodiad A: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

1. Mae'r Atodiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr i bapur ymgynghori'r Llywodraeth "*Bwndeli llys – Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Eiriolaeth Teulu Cymorth Cyfreithiol*" ac ymateb y Llywodraeth i'r rhain.
2. Gofynnodd y Llywodraeth am sylwadau ynghylch dau opsiwn yr oedd wedi'u cynnig i newid FAS, gyda'r bwriad o bennu mecanwaith gwahanol a fydd yn sicrhau bod eiriolwyr yn parhau i gael eu talu'n briodol am waith sy'n angenrheidiol, yn enwedig mewn achosion cymhleth. Byddai'r mecanwaith hwn yn cymryd lle'r dull cysylltu presennol fel y bydd eiriolwyr yn parhau i dderbyn tâl priodol drwy allu ymgymhwyso i dderbyn taliadau am ffioedd atodol am fwndeli pan ddaw'r terfyn uchaf ar faint y bwndel llys i rym ar 31 Gorffennaf.

Opsiwn 1 – Bwndel yr Eiriolwr

3. Gofynnwyd am farn ynghylch cadw fframwaith presennol y ffioedd atodol am fwndeli ond cysylltu'r tâl â maint bwndel yr Eiriolwr a sut y gellid diffinio/rheoli hwnnw i sicrhau bod y newid yn niwtral o ran cost. Y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad oedd:

C1. A ydych yn cytuno y byddai cadw'r taliadau ar gyfer bwndeli llys ond seilio'r taliadau ar fwndel yr Eiriolwr yn ffordd effeithiol o gadw'r gost yn niwtral ond codi tâl priodol am gymhlethdod yng ngoleuni'r newidiadau arfaethedig i PD 27A? Rhwch resymau os gwelwch yn dda.

C2. A oes unrhyw ddulliau/mesurau presennol y gellid eu defnyddio'n sail ar gyfer diffinio maint a chynnwys bwndel yr Eiriolwr? Eglurwch a rhwch resymau.

C3. A oes unrhyw ddulliau/mesurau newydd neu ychwanegol y gellid eu cyflwyno i ddiffinio cynnwys bwndel yr Eiriolwr? Eglurwch a rhwch resymau.

C4. A oes unrhyw systemau/gweithdrefnau y gellid eu defnyddio i gynorthwyo ystyriaeth y barnwr o restr dudalennau a'r mynegai o gynnwys bwndel yr Eiriolwr i sicrhau cost niwtral? Eglurwch a rhwch resymau?

C5. A oes unrhyw systemau/gweithdrefnau newydd neu ychwanegol y gellid eu cyflwyno i gynorthwyo ystyriaeth y barnwr o restr dudalennau a'r mynegai o gynnwys bwndel yr Eiriolwr i sicrhau cost niwtral? Eglurwch a rhwch resymau.

Materion allweddol a godwyd

4. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr, gan gynnwys cyrff cynrychiadol y proffesiwn cyfreithiol, yn ffafrio'r opsiwn hwn gan eu bod yn dadlau mai'r opsiwn hwn a oedd yn adlewyrchu'r arfer presennol orau ac y byddai'n golygu bod taliadau'n cael eu cadw ar y lefelau presennol, fel bod llai o ansicrwydd i eiriolwyr a hefyd i'r gronfa cymorth

cyfreithiol. Y farn gyffredinol oedd y dylai bwndel yr Eiriolwr gynnwys yr holl ddogfennau a oedd wedi'u cyflwyno i'r partïon a chan mai dim ond y dogfennau sydd wedi'u nodi yn y Cyfarwyddiadau Ymarfer perthnasol a/neu wedi'u gorchymyn gan y llys a fyddai'n cael eu cyflwyno, nad oedd fawr o gyfle i ychwanegu'n artiffisial at nifer neu faint y dogfennau hynny. Yn y cyd-destun hwn, nododd Resolution mai'r unig effaith fyddai: "*shift the payment criterion to the index of all documents served rather than whatever bundle is put before the Court on any given hearing.*"

Cytunodd ymatebydd arall fod cysylltu taliadau â'r dogfennau a gyflwynwyd yn yr achos yn sicrhau bod yr eiriolwr yn gwireddu hawliau ei gleient o dan Erthyglau 6 ac 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol⁶ gan y byddai'n sicrhau bod yr eiriolwr yn gallu ystyried dogfennau perthnasol ac angenrheidiol.

5. Er bod Cymdeithas y Cyfreithwyr hefyd o blaid y cysylltiad â'r rhestr o ddogfennau a gyflwynwyd i'r partïon gan eu bod yn berthnasol ac angenrheidiol i'r achos, roedd hefyd o'r farn y dylid ei alw'n Fwndel Awdurdod Lleol gan mai'r Awdurdod Lleol sy'n arwain ar hyn o bryd ar baratoi'r bwndel mewn achosion cyfraith teulu gyhoeddus (sef y rhan fwyaf o lawer o achosion lle y telir ffioedd atodol am fwndeli). Ategwyd y farn hon gan y Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol.
6. Y farn gyffredinol ymysg ymatebwyr oedd y gellid gwirio maint a chynnwys bwndel yr Eiriolwr yn effeithiol drwy lunio a chytuno ar restr dudalennau o ddogfennau a gyflwynwyd. Er eu bod yn derbyn mai dim ond y dogfennau y byddai angen i'r llys eu darllen ar gyfer gwrandawriad penodol a fyddai yn y bwndel llys yn y dyfodol, roeddent hefyd o'r farn y byddai'r angen i lunio rhestr o holl ddogfennau angenrheidiol yr achos yn parhau er mai dim ond is-set o'r dogfennau hynny a fyddai yn y bwndel llys ei hun. Yng nghyd-destun achosion cyfraith teulu gyhoeddus⁷, roeddent yn dadlau mai'r Awdurdod Lleol fel ceisydd a fyddai'n cyflawni'r rôl hon a'i bod yn debygol, fel y mae'n awr, y bydd dogfennau'n cael eu hychwanegu at y rhestr hon wrth i'r achos symud ymlaen, er enghraifft, os yw'r llys wedi gorchymyn cyflwyno rhagor o ddogfennau perthnasol ac angenrheidiol. Oherwydd hyn, gallai'r rhestr hon fod yn sail i restr o gynnwys bwndel yr Eiriolwr y cytunir arni i ddibenion cymorth cyfreithiol.
7. Er eu bod o blaid cadw'r fframwaith presennol ar gyfer ffioedd atodol am fwndeli, roedd rhai ymatebwyr unigol yn pryderu ynghylch y goblygiadau ymarferol o gael yr hyn a fyddai i bob pwrpas yn ddau fwndel – bwndel yr Eiriolwr a'r bwndel llys – ar y sail y gallai hyn arwain at ddryswch a'r posibilrwydd o wastraffu amser a chostau. Roedd un unigolyn hefyd yn dadlau na ddylid parhau â'r cyfyngiad presennol ar gynnwys nodiadau am ymweliadau cyswllt mewn unrhyw gynllun newydd oherwydd, er bod rhai ohonynt yn eithaf swmpus, roedd angen i'r eiriolwr eu darllen.
8. Ar wahân i'r mater hwn, roedd Cymdeithas y Bar ar Gyfraith Teulu (FLBA) o'r farn nad oedd y ffioedd atodol presennol am fwndeli o dan FAS yn talu'n effeithiol i eiriolwyr mewn achosion cymhleth am eu bod yn sefydlog, ac na fyddai talu ar sail wahanol ar ei ben ei hun yn delio â'r datgymhellion cynhenid i eiriolwyr o fewn y system, yn enwedig mewn achosion cymhleth lle'r oedd y diwygiadau i Gyfiawnder Teulu yn arwain yn gyffredinol at lai o wrandawiadau neu wrandawiadau byrrach.

⁶ Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. http://www.echr.coe.int/Documents/Convention_ENG.pdf

⁷ Gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 12A (yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) 2014), <http://www.justice.gov.uk/downloads/protecting-the-vulnerable/care-proceeding-reform/pd12a.pdf>

9. Roedd yr ymatebwyr unigol a wrthwynebai'r opsiwn hwn yn pryderu'n gyffredinol ynghylch y darpariaethau yn PD 27A i gyfyngu ar faint y bwndel llys a'r beichiau ychwanegol o ganlyniad i hynny ar eiriolwyr a'r llys, yn hytrach na'r newidiadau canlyniadol arfaethedig yr oedd eu hangen yn fframwaith ffioedd FAS ar gyfer ffioedd atodol am fwndeli er mwyn ymateb i'r darpariaethau hyn. Y ddadl gan un ymatebydd oedd ei bod yn bosibl bod y darpariaethau yn PD 27A sy'n cyfyngu ar faint y bwndel llys yn torri'r hawliau sydd gan gleientiaid sy'n derbyn cymorth cyfreithiol o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol drwy gau allan dogfennau y gallai fod angen i'r barnwr eu hystyried. Roedd eraill, arbenigwyr yn bennaf neu'r rheini sy'n cynrychioli buddiannau arbenigwyr, wedi dadlau y byddai unrhyw gamau i leihau'r bwndel llys yn gallu effeithio ar eu gallu i gyflawni asesiadau priodol os oedd angen cael barn gan arbenigwr mewn achos teulu. Roeddent yn pryderu'n benodol na fyddent bellach yn cael gweld dogfennau yr oeddent yn eu hystyried yn hanfodol i lunio eu hasesiad arbenigol.

Ymateb y Llywodraeth:

10. Fel y nodwyd yn y papur ymgynghori, mae'r newidiadau arfaethedig yn y ffioedd atodol am fwndeli llys yn ganlyniad yn llwyr i'r darpariaethau yn y PD 27A newydd sy'n cyflwyno terfyn uchaf ar faint y bwndel llys. Daw'r darpariaethau hyn i rym ar 31 Gorffennaf. Roedd egwyddorion cyffredinol y Llywodraeth ar gyfer unrhyw ddiwygio wedi'u nodi ym mharagraff 2.4 yn y papur hwnnw ac maent wedi'u hailddatgan ym mharagraff 1.6 yn yr ymateb hwn. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Llywodraeth wedi cydnabod erioed mai newid syml yn y mecanwaith i bennu pa bryd y telir ffioedd atodol am fwndel llys sy'n debygol o gael yr effaith leiaf ar eiriolwyr unigol. Fodd bynnag, roedd y posibilrwydd o ddefnyddio bwndel yr Eiriolwr wedi'i ystyried yn gyntaf yn yr ymgynghoriad ar newidiadau canlyniadol yn fframwaith y cynllun ffioedd teulu o ganlyniad i'r bwriad i gyflwyno un Llys Teulu⁸. Bryd hynny, ar ôl ystyried y sylwadau cyntaf gan ymatebwyr am y mater hwn, daeth y Llywodraeth i'r casgliad bod nifer o anawsterau ymarferol ynglŷn â mabwysiadu bwndel yr Eiriolwr a oedd yn ei gwneud yn annhebygol y byddai modd dilyn y llwybr hwn. Rhai o'r anawsterau hyn oedd yr angen am ddiffiniad priodol i sicrhau mai dim ond dogfennau a fyddai yn y bwndel llys presennol a fyddai'n cael eu cynnwys ym mwndel yr eiriolwr, a'r angen am ddull gwirio effeithiol nad oedd yn ychwanegu at feichiau'r llys. Un risg allweddol o safbwynt y Llywodraeth oedd y byddai cysylltu tâl am ffioedd atodol am fwndeli â bwndel yr Eiriolwr heb osod rheolaethau priodol yn gallu arwain at fwy o gostau i'r gronfa cymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau â gwahanol randdeiliaid, mae'r Llywodraeth yn credu'n awr y byddai fframwaith wedi'i seilio ar weithdrefnau llys presennol yn rhoi'r rheolaethau sydd eu hangen i liniaru'r risg hon.

Cyfraith Teulu Gyhoeddus

11. Ar hyn o bryd mae mwy na 98% o'r holl wariant cymorth cyfreithiol ar ffioedd atodol am fwndeli yn digwydd mewn achosion cyfraith teulu gyhoeddus. O dan weithdrefnau presennol y llysoedd (sydd wedi'u disgrifio yn yr Amlinellid Cyfraith Gyhoeddus (PLO) 2014) mae'n ofynnol bod yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno'r dystiolaeth sy'n sail i'w achos i'r partïon yn awtomatig. Wrth wneud hyn bydd yn darparu rhestr wirio i bartïon sy'n nodi'n gyntaf yr holl ddogfennau tystiolaeth (a

⁸ Cefnogi proses cyflwyno un Llys Teulu – Newidiadau i gynlluniau talu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd.
<https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/proposed-changes-family-legal-aid-remuneration>

elwir yn ddogfennau Rhestr Wirio A). Yn ail, mae'r rhestr wirio hefyd yn rhestru dogfennau eraill sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod Lleol (a elwir yn ddogfennau Rhestr Wirio B). Mae hyn yn cynnwys cofnodion o nodiadau'r Awdurdod Lleol a chynlluniau gofal blaenorol, na fyddant yn cael eu cyflwyno'n awtomatig gan nad ydynt yn berthnasol ac angenrheidiol ym mhob achos. Er bod rhaid cyflwyno'r dogfennau eraill hyn os bydd parti yn gofyn amdanynt a bod partion hefyd yn cael cyflwyno dogfennau i'r Awdurdod Lleol, nid ydynt i gael eu ffeilio gyda'r llys oni bai fod y llys yn cyfarwyddo hynny'n benodol. Dim ond os ydynt yn berthnasol ac angenrheidiol i'r achos y gellir eu cynnwys yn y bwndel llys.

12. Mae perygl, felly, y byddai seilio'r tâl yn llwyr ar restr o ddogfennau a gyflwynwyd, fel y mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn awgrymu, yn gallu arwain at gynnwys dogfennau sydd heb fod yn berthnasol ac angenrheidiol i'r achos, na fyddent yn cael eu cynnwys yn y bwndel llys ar hyn o bryd, ym mwndel yr Eiriolwr yn y dyfodol. Gallai hyn gynyddu'r gwariant ar gymorth cyfreithiol gan y byddai'n cynyddu maint bwndel yr Eiriolwr sy'n sail i'r tâl. Oherwydd hyn, mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn hanfodol cael rheolaethau priodol ar unrhyw daliadau sy'n gysylltiedig â bwndel yr Eiriolwr i sicrhau ei fod yn cynnwys dim ond y dogfennau hynny a gyflwynwyd sy'n berthnasol ac angenrheidiol i'r achos. Er bod hyn yn golygu y gallai'r eiriolwr ddarllen papurau na fydd yn gallu hawlio tâl ychwanegol amdanynt, mae hyn yn nodwedd ar y system bresennol eisoes. Er enghraifft, gallai ddarllen nodiadau am ymweliadau cyswllt na fyddant wedi'u cynnwys wedyn yn y bwndel llys, ac ni fydd y nodwedd hon yn cael ei newid drwy'r diwygiadau hyn na'r darpariaethau newydd yn PD 27A.
13. Un ateb posibl yw peidio â chynnwys dim ym mwndel yr Eiriolwr heblaw'r dogfennau tystiolaeth (h.y. dogfennau Rhestr Wirio A) y mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu dibynnu arnynt yn ei achos ac unrhyw ddogfennau ychwanegol y mae'r llys yn gorchymyn eu cyflwyno yn ystod yr achos. Fodd bynnag, mae'n amlwg y byddai hyn yn effeithio ar eiriolwyr yn yr achosion hynny lle'r oedd unrhyw ddogfennau eraill yn berthnasol ac angenrheidiol i'r achos. Y dewis arall yw mabwysiadu dull llai penodol a chaniatáu cynnwys dogfennau eraill ym mwndel yr Eiriolwr, gan ddefnyddio rheolaethau priodol i sicrhau mai dim ond y rheini sy'n berthnasol ac angenrheidiol i'r achos a gaiff eu cynnwys.
14. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Llywodraeth yn credu mai ateb ymarferol i hyn fyddai mynnu bod y partion yn cytuno ar restr dudalennau o'r dogfennau a gyflwynwyd y mae'r Eiriolwr yn dymuno eu cynnwys ym mwndel yr Eiriolwr i ddibenion cymorth cyfreithiol, fel yr oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi awgrymu. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau, fel y gwneir yn awr, mai dim ond dogfennau a gyflwynwyd sy'n berthnasol ac angenrheidiol i'r achos a gaiff eu cynnwys, dylai'r eiriolwr roi esboniad ysgrifenedig gyda'r rhestr sy'n dangos pam y mae unrhyw ddogfennau nad ydynt yn ddogfennau Rhestr Wirio A yn berthnasol ac angenrheidiol i'r achos. Yng nghyd-destun achosion cyfraith teulu gyhoeddus, gan y bydd sail y rhestr ar gael eisoes yn y rhestr wirio o ddogfennau a gyflwynwyd yn wreiddiol gan yr Awdurdod Lleol o dan PLO 2014, a chan fod yr eiriolwr eisoes yn gorfod egluro pam y dylid cynnwys unrhyw ddogfennau nad ydynt yn ddogfennau Rhestr Wirio A yn y bwndel llys presennol, mae'r Llywodraeth yn credu na fydd hyn yn ychwanegu unrhyw feichiau penodol ar gyfer eiriolwyr.
15. Mae'r Llywodraeth yn nodi barn y cyrff cynrychiadol mai'r Awdurdod Lleol a ddylai fod yn gyfrifol mewn achosion cyfraith teulu gyhoeddus am baratoi'r rhestr dudalennau o ddogfennau a gyflwynwyd. Fodd bynnag, byddai hyn yn gosod baich

ychwanegol ar Awdurdodau Lleol na ellir ei briodoli'n uniongyrchol i benderfyniad ar yr achos ac nid yw'n glir, felly, sut y gellid cyfiawnhau gosod y baich hwn arnynt. Er ei bod yn gwbl resymol seilio'r rhestr mewn unrhyw achos cyfraith teulu gyhoeddus ar y rhestr wirio wreiddiol a baratowyd gan yr Awdurdod Lleol yn unol â PLO 2014, mae'r Llywodraeth yn credu, gan mai'r eiriolwr a fyddai'n dymuno defnyddio'r wybodaeth honno, y dylai'r eiriolwr fod yn gyfrifol am sicrhau bod y partion eraill yn cytuno ar y rhestr dudalennau. Hefyd, gan y byddai angen i'r eiriolwr ddangos cyfiawnhad dros gynnwys unrhyw ddogfennau, yr eiriolwr a ddylai fod yn llwyr gyfrifol am roi'r esboniad priodol o'r rheswm y mae unrhyw ddogfen nad yw'n ddogfen Rhestr Wirio A yn berthnasol ac angenrheidiol i'r achos er mwyn ei chynnwys ar y rhestr dudalennau.

Cyfraith teulu breifat

16. Mewn achosion cyfraith teulu breifat, nid oes Cyfarwyddyd Ymarfer tebyg na rheol ar hyn o bryd sy'n egluro pa ddogfennau sydd i'w cyflwyno ym mhob achos, gan fod y darpariaethau'n amrywio yn ôl y math o achos. Fodd bynnag, dim ond mewn cyfran fach iawn o'r achosion cyfraith teulu breifat (tua 8% o'r achosion a derfynwyd) y rhoddir tâl am y bwndel. Yn yr un modd ag achosion cyfraith teulu gyhoeddus, mae'r Llywodraeth yn credu bod perygl y bydd cysylltu cynnwys bwndel yr Eiriolwr â dogfennau a gyflwynwyd yn unig yn golygu y bydd rhai dogfennau sydd heb eu cynnwys yn awr yn y bwndel llys yn cael eu cynnwys ym mwndel yr Eiriolwr. I'r graddau bod hyn yn golygu y byddai tâl atodol am fwndel yn cael ei hawlio mewn mwy o achosion a/neu y byddai tâl atodol uwch na'r arfer yn cael ei hawlio yn yr achosion hynny lle y rhoddir tâl atodol ar hyn o bryd, byddai hyn yn golygu mwy o wariant ar gymorth cyfreithiol. Er hynny, rydym yn credu y byddai mabwysiadu'r un dull â hwnnw a gynigir ar gyfer achosion cyfraith teulu gyhoeddus – cynnwys dim ond dogfennau a gyflwynwyd sy'n berthnasol ac angenrheidiol i'r achos ym mwndel yr Eiriolwr a'u dilysu gan y barnwr neu'r person y gwrandewir yr achos o'i flaen ar sail rhestr dudalennau y cytunwyd arni ac esboniad o berthnasedd y dogfennau a restrwyd – yn rhoi rheolaethau effeithiol i liniaru'r risg honno.

Y Ffordd Ymlaen

17. Felly, mae'r Llywodraeth yn credu y gellir defnyddio un broses mewn achosion cyfraith teulu gyhoeddus a phreifat, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol bod yr eiriolwr yn darparu rhestr dudalennau y cytunwyd arni o ddogfennau a gyflwynwyd i'r llys, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig o'r rheswm dros gynnwys y dogfennau ym mwndel yr Eiriolwr, i'w hardystio gan y barnwr neu'r person y gwrandewir yr achos o'i flaen yn y gwrandawriad yr oedd yr eiriolwr am hawlio tâl am ffi atodol am fwndel ar ei gyfer. Pe byddai unrhyw bryderon ar y pryd ynghylch cynnwys unrhyw ddogfennau ar y rhestr, byddai'r llys yn gallu ystyried yr esboniad cyn ardystio'r rhestr dudalennau. Byddai'r eiriolwr yn parhau i gyflwyno Ffurflen Presenoldeb Eiriolwr a ardystiwyd gydag unrhyw hawliad am ffi atodol am fwndel. Fodd bynnag, byddai'r LAA hefyd yn gallu gofyn am gopiâu o'r rhestr dudalennau y cytunwyd arni a'r esboniad dros gynnwys dogfennau cyn gwneud taliad. Mae'r fframwaith a fydd yn rheoli'r broses hon wedi'i gynnwys yn **Atodiad B** i'r ddogfen hon.
18. Roedd nifer o ymatebwyr unigol wedi mynegi pryderon penodol ynghylch yr effaith bosibl o orfod cadw'r hyn a fyddai, i bob pwrpas, yn ddwy set o bapurau: er enghraifft, y ffeil achos gyffredinol i'w defnyddio gan yr eiriolwr (bwndel yr Eiriolwr)

a'r bwndel llys a ddefnyddir gan y barnwr neu'r person sy'n cynnal y gwrandawriad. Roedd ymatebwyr unigol eraill, yn enwedig y rheini sy'n darparu adroddiadau arbenigol, wedi mynegi pryder y bydd y newidiadau ym maint a chynnwys y bwndeli llys eu hunain yn golygu na fyddent yn cael gweld yr holl bapurau perthnasol ac angenrheidiol mewn achos. Nid yw'r rheswm dros gredu hyn yn glir. Bydd angen o hyd i bartïon gydymffurfio â'r gofynion trefniadol presennol gan gynnwys, er enghraifft, llunio a chyflwyno'r holl ddogfennau yn unol â PLO 2014. Yn ogystal â hyn, bydd bwndel yr Eiriolwr yn cynnwys y dogfennau a gyflwynwyd sydd wedi'u cynnwys yn y bwndel llys a ddefnyddir gan y barnwr yn ystod y gwrandawriad. Felly mae'r Llywodraeth yn credu nad yw'r materion y maent wedi'u codi'n debygol o achosi'r dryswch y maent yn ei rag-weld.

Casgliad

19. Ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig i gadw fframwaith y cynllun presennol ar gyfer ffioedd atodol am fwndeli, ond cysylltu'r tâl â chynnwys a maint bwndel yr Eiriolwr. Yn y cyd-destun hwn, dim ond dogfennau a gyflwynwyd sy'n berthnasol ac angenrheidiol i'r achos a fyddai ym mwndel yr Eiriolwr. Fodd bynnag, bydd yn adolygu'r dull hwn o weithredu yn ystod yr adolygiad ehangach o gynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol mewn achosion teulu a gynhelir yn ddiweddarach eleni.
20. Fel y mae'n awr, ni fydd nodiadau am gyfarfodydd cyswllt yn cael eu cynnwys yn y bwndel i ddibenion cymorth cyfreithiol oni bai fod y barnwr neu'r person sy'n cynnal y gwrandawriad wedi rhoi cyfarwyddyd penodol i'w cynnwys yn y bwndel llys.
21. Caiff hawliadau eu gwirio ar sail rhestr dudalennau o'r dogfennau a gyflwynwyd y bydd yr eiriolwr wedi cytuno arni â'r partïon eraill. Bydd yr eiriolwr yn darparu esboniad ysgrifenedig gyda'r rhestr dudalennau o'r rheswm y mae dogfennau penodol yn berthnasol ac angenrheidiol i'r achos. Er mwyn hawlio taliad atodol, bydd yr eiriolwr yn cyflwyno'r rhain i'r llys i'w hardystio ynghyd â Ffurflen Presenoldeb yr Eiriolwr. Bydd yr LAA yn penderfynu ar unrhyw dâl ar sail y rhestr dudalennau sydd wedi'i hardystio gan y llys ac ar ôl ystyried yr esboniad am y dogfennau sydd wedi'u cynnwys ym mwndel yr Eiriolwr, os yw'n briodol. Mae manylion y broses yn **Atodiad B**.
22. Y bwriad yw y bydd y newidiadau angenrheidiol yn dod i rym, ar ôl eu cymeradwyo gan y Senedd, drwy wneud is-ddeddfwriaeth a diwygio contractau yr un pryd â'r newidiadau ym maint y bwndel llys a weithredir ar 31 Gorffennaf 2014.

Darpariaethau trosiannol

23. Bydd y newidiadau yn PD 27A sy'n cyflwyno terfyn uchaf ar faint y bwndel llys yn gymwys i'r holl wrandawriadau a gynhelir ar neu ar ôl 31 Gorffennaf 2014, gan gynnwys y rheini ar gyfer achosion sydd wedi'u cychwyn yn barod. Bwriad y Llywodraeth yw y bydd y newidiadau y cytunwyd arnynt i bennu ffioedd atodol am fwndeli sydd wedi'u hegluro yn yr ymateb hwn yn cael eu cyflwyno yr un pryd â'r newidiadau sy'n gymwys i wrandawriadau a gynhelir ar neu ar ôl 31 Gorffennaf. Ar gyfer gwrandawriadau sy'n digwydd cyn 31 Gorffennaf 2014, bydd y fframwaith presennol sy'n cysylltu'r tâl am ffioedd atodol â'r bwndel llys yn parhau'n gymwys.

Opsiwn 2 – Ffioedd atodol newydd wedi'u seilio ar wrandawiadau

24. O dan yr opsiwn hwn, gofynnwyd am sylwadau ynghylch mabwysiadu ffioedd newydd sefydlog wedi'u seilio ar wrandawiadau yn lle'r ffioedd atodol presennol am fwndeli. Byddai'r rhain yn daladwy ym mhob achos a oedd yn cyrraedd gwrandawriad neu wrandawiadau penodedig. Y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad oedd:

C6. A ydych yn cytuno y byddai aiddosbarthu'r arian a delir ar hyn o bryd ar ffurf ffioedd atodol am fwndeli llys, yn ffioedd gwrandawriad atodol newydd a fyddai'n daladwy ym mhob achos oedd yn cyrraedd gwrandawriad penodedig, yn ffordd gost niwtral o godi tâl priodol am gymhlethdod yng ngoleuni'r newidiadau arfaethedig i PD 27A? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cyfraith Teulu Gyhoeddus

C7. A ydych yn cytuno y dylai'r ffioedd sefydlog atodol newydd arfaethedig fod yn daladwy ond ar gyfer Gwrandawriad Datrys Materion a Gwrandawriad Terfynol? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C8. A ydych yn cytuno y dylid talu ffioedd sefydlog atodol gwahanol mewn achosion o dan y Ddeddf Plant Arbennig ac achosion Cyfraith Gyhoeddus eraill sy'n ymwneud â'r Ddeddf Plant? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cyfraith Teulu Breifat

C9. A ydych yn cytuno y dylai'r ffioedd sefydlog atodol newydd arfaethedig fod yn daladwy ddim ond ar gyfer gwrandawriad lle caiff yr achos ei benderfynu? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C10. A ydych yn cytuno y dylid talu ffioedd sefydlog atodol gwahanol mewn achosion Cyllid a Chyfraith Breifat sy'n ymwneud â'r Ddeddf Plant? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Materion allweddol a godwyd

25. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr, gan gynnwys pob un yng nghyfrif cynrychiadol y proffesiwn cyfreithiol, yn cefnogi'r opsiwn hwn, ac roeddent yn ffafrio Opsiwn 1 yn ei lle. Roedd ymatebwyr yn neilltuo o bryderus y byddai'r ffioedd sefydlog a gynigiwyd yn lleihau'r tâl a oedd ar gael ar gyfer achosion mwy cymhleth lle'r oedd angen mwy o waith, gan gynyddu'r tâl a oedd ar gael mewn achosion symlach lle na fyddai ffi atodol am fwndel yn cael ei thalu ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun hwn, roedd nifer o ymatebwyr o'r farn nad oedd yr opsiwn hwn yn cynnig ateb niwtral o ran cost gan y byddai'n golygu aiddosbarthu ffioedd rhwng eiriolwyr ac y gallai'r tâl i rai ohonynt, a bargyfreithwyr yn benodol, fod yn llai o lawer.

26. Er nad oedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid yr opsiwn hwn, roedd rhai ohonynt wedi trafod nodweddion penodol yn y model a gynigiwyd. Er enghraifft, cafwyd dadl gan

Gymdeithas y Cyfreithwyr, a oedd wedi'i hategu gan y Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol (LAPG), y dylai'r ffioedd sefydlog newydd a gynigiwyd ar gyfer gwrandawiadau interim fod yn daladwy hefyd, os dilynir yr opsiwn hwn, ar gyfer y Gwrandawriad Rheoli Achos a'r Gwrandawriad Datrys Materion os oeddent wedi'u cynnal, ac y dylai'r ffi am Wrandawriad Terfynol gael ei thalu bob amser yn ogystal â ffi'r Gwrandawriad Datrys Materion, hyd yn oed os oedd yr achos wedi'i setlo yn y Gwrandawriad Datrys Materion. Roedd nifer o ymatebwyr eraill wedi dadlau, i wahanol raddau, y dylai unrhyw ffioedd sefydlog newydd am wrandawiadau gael eu talu mewn mwy o fathau o wrandawiadau. Ar y llaw arall, roedd un arbenigwr a oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad wedi dadlau y byddai llai o debygolrwydd o gyflwyno dogfennau diangen pe byddai'r ffioedd newydd am wrandawiadau'n cael eu darparu ar gyfer y Gwrandawriad Datrys Materion a'r Gwrandawriad Terfynol yn unig.

27. Nifer bach o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn ynghylch a ddylid cael ffioedd ar wahân ar gyfer gwrandawiadau mewn achosion o dan y Ddeddf Plant Arbennig ac achosion Cyfraith Gyhoeddus Arall o dan y Ddeddf Plant. O'r rheini a gyflwynodd sylwadau, roedd un ymatebydd yn cytuno y dylid parhau i dalu ffioedd atodol ond yn credu y dylid eu talu drwy gyfeirio at faint y dystiolaeth a oedd wedi'i ffeilio yn yr achos yn hytrach na ffi ar wahân am y gwrandawriad. Nododd ymatebydd arall na fydd achosion Cyfraith Gyhoeddus Arall yn cael eu rhestru'n aml ar gyfer Gwrandawriad Datrys Materion neu Wrandawriad Terfynol ac felly y byddai angen ystyried talu'r ffioedd sefydlog newydd a gynigiwyd am wrandawiadau eraill hefyd. Nid oedd ymatebwyr eraill yn glir ynghylch y rheswm dros gredu bod materion Cyfraith Gyhoeddus Arall yn llai cymhleth nag achosion o dan y Ddeddf Plant Arbennig na pham y dylid gwahaniaethu rhwng gofal a mathau eraill o waith cyfraith gyhoeddus.
28. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn anghytuno â'r awgrym yn y papur mai dim ond am y gwrandawriad lle y daw'r achos i ben y dylai unrhyw ffioedd atodol sefydlog newydd am wrandawiadau fod yn daladwy mewn achosion cyfraith teulu breifat. Roedd rhai'n dadlau y byddai hyn yn gyfyngol ac na fyddai'n adlewyrchu maint y gwaith neu ymdrech sydd eu hangen ar ran yr eiriolwr, yn enwedig os oedd yr achos yn dod i ben yn y gwrandawriad canfyddiad ffeithiol neu os oedd y gwrandawriad terfynol yn methu. Roedd ymatebwyr eraill yn dadlau y byddai seilio'r ffi'n gyfan gwbl ar y gwrandawriad terfynol yn rhoi gormod o bwys ar gymryd y gwrandawriad hwnnw gan yr eiriolwr ac na fyddai o reidrwydd yn adlewyrchu maint y gwaith yr oedd ei angen mewn camau cynharach.
29. Nifer bach o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn ynghylch a ddylid talu ffioedd atodol sefydlog ar wahân am wrandawiadau mewn achosion Cyllid a Chyfraith Breifat o dan y Ddeddf Plant. O'r rheini a atebodd, roedd rhai o blaid cael ffioedd ar wahân am achosion o'r mathau hyn gan eu bod o'r farn bod ffioedd atodol yr un mor ddilys yn yr achosion hyn ag mewn achosion gofal plant o dan gyfraith breifat ac y byddai hyn yn sicrhau tâl priodol i eiriolwyr am waith mewn achosion mwy cymhleth. Dywedodd eraill y dylai cymhlethdod y bwndel mewn achos cyllid fod yn gyfiawnhad dros dalu ffi uwch yn yr un modd ag y mae'r ffi sy'n daladwy am wrandawriad Datrys Anghydfod Ariannol yn uwch na'r un am ddelio â phlant yn unig, am ei fod yn aml yn cynnwys llawer o ddata ariannol cymhleth. Awgrymodd ymatebydd arall, yng nghydestun achosion plant o dan gyfraith breifat, y dylid ystyried caniatáu ffioedd am unrhyw wrandawriad interim a ymleddir gan nad oes Gwrandawriad Datrys Materion mewn achosion o'r fath. Roedd eraill, a anghytunai fod angen ffioedd ar wahân ar gyfer yr achosion hyn, yn seilio eu gwrthwynebiad ar y farn nad oedd angen newid

yr arferion presennol a chan fod y gwaith yn yr achosion hyn yn galw am yr un maint o waith paratoi ac asesu ag eraill, ei bod yn well defnyddio ffioedd safonol a fyddai'n cymell ymarferwyr i ymarfer ym mhob maes, yn hytrach nag arbenigo mewn maes penodol.

Ymateb y Llywodraeth

30. Fel yr eglurwyd yn y papur ymgynghori, mae'r newidiadau arfaethedig yn FAS yn angenrheidiol o ganlyniad i gyflwyno terfyn uchaf ar faint y bwndel llys yn y PD 27A a fydd yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2014. Mae egwyddorion cyffredinol y Llywodraeth ar gyfer unrhyw ddiwygio wedi'u disgrifio ym mharagraff 2.4 yn y papur hwnnw ac wedi'u hailddatgan ym mharagraff 1.6 yn yr ymateb hwn. Fel y nodwyd yn yr Asesiad o Effaith sydd gyda'r ymateb hwn, mae'r Llywodraeth wedi cydnabod erioed mai newid syml yn y mecanwaith i bennu pa bryd y telir ffioedd atodol am fwndel llys sy'n debygol o gael yr effaith leiaf ar eiriolwyr unigol. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y byddai cyflwyno ffioedd sefydlog newydd am wrandawiadau, fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad, yn gallu cael effaith anffafriol ar rai eiriolwyr unigol oherwydd, o dan y model hwn, byddai llai o ffioedd ar gyfartaledd yn mynd at achosion cymhleth lle y mae nifer mawr o ddogfennau a byddai gwerth presennol y taliadau am ffioedd atodol am fwndel llys yn cael ei rannu rhwng nifer mwy o achosion. Fodd bynnag, fel yr eglurwyd yn y papur ymgynghori, y bwriad oedd y byddai'r un swm yn cael ei dalu ar ffurf ffioedd atodol am wrandawiadau, at ei gilydd, ag a delir ar hyn o bryd ar ffurf ffioedd am y bwndel llys. Oherwydd hynny, byddai unrhyw newid yn niwtral o ran cost.
31. Fel y nodwyd yn y papur ymgynghori, wrth fodelu'r opsiwn hwn defnyddiwyd data FAS i gyfrifo'r swm sy'n cael ei wario ar hyn o bryd ar daliadau am ffioedd atodol y bwndel llys ar gyfer gwrandawiadau interim a gwrandawiadau terfynol ac roedd y ffioedd a ddisgrifiwyd yn y papur hwnnw wedi'u datblygu ar y sail honno. Byddai darparu i ffioedd atodol sefydlog am wrandawiadau fod ar gael ar gyfer mwy o fathau o wrandawiadau a/neu ar sail wahanol i'r un sydd wedi'i disgrifio yn y papur yn debygol iawn o alw am ostyngiad, a allai fod yn sylweddol, yng ngwerth rhai o'r ffioedd hyn o leiaf.

Casgliad

32. Er bod y Llywodraeth o'r farn y byddai cyflwyno ffioedd atodol sefydlog am wrandawiadau yn niwtral o ran cost at ei gilydd, mae'n cydnabod na fyddai hynny wedyn yn talu ffioedd am achosion yn ôl eu cymhlethdod ac y byddai, felly, yn gallu cael effaith anffafriol ar eiriolwyr unigol, yn enwedig y rheini sy'n arbenigo ar achosion cymhleth lle y mae angen mwy o waith. O ganlyniad i hynny, fel y nodwyd ym mharagraff 19-22 o'r papur hwn, penderfynwyd cadw'r fframwaith presennol ar gyfer y cynllun ffioedd atodol am y bwndel am y tro ond cysylltu'r taliadau â chynnwys a maint bwndel yr Eiriolwr, y cynigir ei seilio ar ddogfennau a gyflwynwyd sy'n berthnasol ac angenrheidiol i'r achos.

Achosion nad ydynt o dan FAS

33. Gofynnwyd am sylwadau ynghylch a ddylid gwneud newidiadau cyfatebol yn y Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Teulu (FGFS) a ddefnyddir o hyd i dalu ffioedd

mewn nifer bach iawn o achosion teulu, sy'n lleihau o hyd, a gychwynnwyd yn gynharach. Y cwestiwn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad oedd:

C11. A ydych yn cytuno y byddai'n anghymesur newid y Cynllun Ffioedd Gradedig Achosion Teulu? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Materion allweddol a godwyd

34. Nifer bach o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, o'r rheini a wnaeth, roedd y mwyafrif, gan gynnwys Cyngor y Bar, Cymdeithas y Cyfreithwyr a'r Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol, yn credu, ar sail eu profiad, mai mewn cyfran fach iawn o achosion teulu'n unig yr oedd ffioedd yn parhau i gael eu talu o dan y cynllun hwn a bod nifer yr achosion dan sylw yn gostwng yn gyflym wrth i'r llys benderfynu ar achosion teulu a oedd wedi'u cychwyn yn gynharach. Oherwydd hyn, roeddent yn cytuno mai cam gweithredu anghymesur fyddai diwygio'r cynllun hwn i ymateb i'r newidiadau ym maint a chynnwys y bwndel llys a gyflwynir ar 31 Gorffennaf drwy PD 27A. Er hynny, roedd un bargyfreithiwr wedi awgrymu bod angen cynyddu gwerth y ffioedd atodol sy'n daladwy o dan y cynllun hwn ar sail chwyddiant gan eu bod wedi aros ar yr un lefel ers blynyddoedd.

Ymateb y Llywodraeth

35. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, roedd nifer yr achosion y mae hyn yn berthnasol iddynt wedi gostwng tua 50% rhwng Mawrth 2013 ac Ionawr 2014. Ers hynny, mae'r nifer wedi gostwng 30% eto. O ganlyniad i hyn, erbyn diwedd Ebrill 2014, roedd achosion FGFS yn llai na 5% o'r holl achosion teulu ac rydym yn rhag-weld y bydd y gyfran hon yn disgyn yn gyflym eto wrth barhau i waredu achosion teulu a gychwynnwyd yn gynharach. Gan ei bod yn bosibl y bydd nifer bach o achosion FGFS yn parhau ar ôl cyflwyno'r newidiadau ym maint y bwndel llys ar 31 Gorffennaf lle y buasai'r bwndel yn fwy na 351 o dudalennau, mae'r Llywodraeth yn cydnabod ei bod yn bosibl y byddai peidio â gwneud newidiadau yn FGFS yn arwain at leihau ffioedd i eiriolwyr (ac felly at arbed swm bach i'r gronfa cymorth cyfreithiol). Er hynny, byddai rhai ffioedd atodol am fwndeli yn daladwy o hyd mewn unrhyw achosion y mae hyn yn berthnasol iddynt am fod y trothwy ar gyfer taliadau am fwndeli yn is o dan FGFS (mae ffioedd yn daladwy os yw'r bwndel llys yn 176 o dudalennau neu'n fwy) nag o dan FAS (351 o dudalennau neu fwy). Oherwydd hyn, rhagwelir mai bach iawn fydd unrhyw effaith.

Casgliad

36. Mae'r Llywodraeth yn cytuno mai cam gweithredu anghymesur fyddai diwygio FGFS felly nid yw'n bwriadu gwneud unrhyw newidiadau yn y cynllun hwnnw o ganlyniad i newidiadau ym maint y bwndel llys a gyflwynir ar 31 Gorffennaf. Er ei bod yn derbyn y gallai hyn arwain at arbediad bach ychwanegol i'r gronfa cymorth cyfreithiol a cholled fach i eiriolwyr sy'n ymwneud ag achosion FGFS, gan fod nifer yr achosion lle y telir ffioedd o dan FGFS yn parhau i ostwng a bod y trothwy ar gyfer talu ffioedd am fwndeli yn is o dan y cynllun hwnnw, mae'n credu bod yr effaith yn debygol o fod yn fach iawn.

Atodiad B: Cynnwys bwndel yr Eiriolwr a'r broses gwirio

Cyflwyniad

1. Y bwriad yw cadw'r fframwaith presennol ar gyfer ffioedd atodol am fwndeli, sydd wedi'i bennu yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau) 2013 (fel y'u diwygiwyd) a chontractau a chanllawiau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, ond cysylltu'r taliadau â bwndel yr Eiriolwr. Byddai ffioedd atodol yn daladwy o hyd am wrandawiadau interim a therfynol.
2. Yn yr Atodiad hwn, pennir y dogfennau a fyddai wedi'u cynnwys ym mwndel yr Eiriolwr er mwyn hawlio ffi atodol am fwndel a'r broses gwirio y byddai'n rhaid i eiriolwyr gydymffurfio â hi wedyn i sicrhau tâl. Byddai'r rhain wedi'u pennu mewn newidiadau yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau) 2013 (fel y'u diwygiwyd) a chontractau a chanllawiau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, fel y bo'n briodol.

Cynnwys bwndel yr Eiriolwr

3. Byddai bwndel yr Eiriolwr yn cynnwys y dogfennau hynny a gyflwynwyd sy'n berthnasol ac angenrheidiol i'r achos, gan gynnwys rhestr dudalennau o'r cynnwys.
4. Fel y mae'n awr, ni fyddai nodiadau am ymweliadau cyswllt wedi'u cynnwys yn y bwndel er mwyn hawlio cymorth cyfreithiol oni bai fod y llys wedi gorchymyn eu cynnwys mewn bwndel llys ar gyfer gwrandawriad penodol.

Gwirio

5. Byddai maint a chynnwys bwndel yr Eiriolwr yn cael eu gwirio i ddibenion cymorth cyfreithiol gan y barnwr neu'r person y gwrandawrir yr achos o'i flaen drwy:
 - (a) rhestr dudalennau a gytunwyd o ddogfennau a gyflwynwyd yn yr achos y byddai disgwyl i'r eiriolwr fod wedi cytuno arni â'r partiön eraill, fel y bo'n briodol, yr oedd yr eiriolwr yn dymuno iddynt gael eu hystyried yn rhan o fwndel yr Eiriolwr i ddibenion cymorth cyfreithiol;
 - (b) esboniad ysgrifenedig o'r rheswm y mae unrhyw ddogfennau sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr dudalennau honno yn berthnasol ac angenrheidiol i'r achos. Yng nghyd-destun cyfraith teulu gyhoeddus, er enghraifft, bydd hyn yn angenrheidiol os yw'r eiriolwr yn dymuno cynnwys unrhyw ddogfennau nad ydynt ar Restr Wirio A.
6. Byddai'r rhestr dudalennau y cytunwyd arni, ynghyd â'r esboniad o'r rheswm dros gynnwys dogfennau, yn cael ei chyflwyno i'r llys yn y gwrandawriad perthnasol ynghyd â Ffurflen Presenoldeb yr Eiriolwr i'w hardystio gan y barnwr neu'r person y gwrandawrir yr achos o'i flaen.

7. Byddai'r llys yn seilio ar ardystiad ar y rhestr dudalennau y cytunwyd arni o ddogfennau a gyflwynwyd ond byddai hefyd yn gallu adolygu'r esboniad a roddwyd o'r rheswm y mae'r rhain yn berthnasol ac angenrheidiol i'r achos os oedd yn credu bod hynny'n briodol.
8. Fel y gwneir yn awr, byddai eiriolwyr yn anfon Ffurflen Presenoldeb yr Eiriolwr i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wrth hawlio taliad atodol.
9. Caiff yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ofyn am gopiâu o'r rhestr dudalennau y cytunwyd arni a'r esboniad o'r rheswm dros gynnwys dogfennau cyn neu ar ôl gwneud taliad.

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu anfon neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi bod deunydd yn ddarostyngedig i hawlfraint trydydd parti, bydd angen cael caniatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint honno.